Tree Surgery, Felling and Removal  
25 years experience

Garden work, All types of Fencing

### And Gwili Firewood

Seasoned hardwood or softwood logs

Ian Harcourt 01267253368 or 07812158825

## Gwalia Stores

Peniel Road 01267 890345

**Fuel, Shop, Post-office**

**Licensed,**

**Hot & cold food to go**

**Coffee,**

**Newspapers and magazines**



## Tom Eldred

Saer Coed - Carpentry

All aspects of carpentry undertaken including roofing, timber frames, stud work, decking, tiling, flooring and kitchens.

**Tel - 07854 167670**

Pantyyffordd, Llanpumsaint, SA33 6BU

## THE OLD DAIRY DOG HOTEL

Seven Brand new luxury kennels

Spacious individual kennels with their own covered patio area

Underfloor heating for our guests' comfort

18 acres of private grounds to exercise

Fully licensed,

30 years' experience caring for clients' dogs

To view our kennels phone 01267 281628

or 07717 345277

or email [www.theolddairydoghotel.co.uk](http://www.theolddairydoghotel.co.uk)

## Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs

Patio Cleaning - Drain unblocking

Carpet, Rug and Upholstery Cleaning

Car Battery Diagnosis, Jumpstarting & Replacement.

TV and computer Set Up

**If you can't see what you need just ask**

**Contact Jon 07943 948173**

**Based in Llanpumsaint**

**Gwyrddenterprises@gmail.com**



**Hafan Holistaidd**

Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology

Tyluno / Aromatherapy Massage

Indian Head Massage

Thermal-auricular (Ear candling)

Reiki

## Meleri Brown MAR

[mels.brown@hotmail.co.uk](mailto:mels.brown@hotmail.co.uk) 07855488660

**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT

## Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

*JRB & K Thomas*

*Peniel Road Carms SA32 7DR*

**Local Business?** You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk), or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

**Contact Carolyn Smethurst\_01267 253308 or email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)**

*Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter*



# Llais y Llan Awst 2023

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Medi 26 2023

CRONFA GYMUNEDOL FFERM WYNT  
CŌD WIG GORLLEWIN BRECHFA



BRECHFA FOREST WEST WIND FARM  
COMMUNITY FUND


Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

## Natur

Gwledd i'r llygaid (Lluniau a dynnwyd yn Llanpumsaint).



# I'ch Dyddiadur

## Digwyddiadau Unigol

- **Sadwrn 19eg Awst – Sioe Garddio Bronwydd** – Neuadd 3 o'r gloch
- **Sadwrn 26ain Awst – Sioe Cynwil Elfed** – 10.30 y bore
- **Mawrth 12 Medi - Cyfarfod Cyngor Cymuned** - 8 o'r gloch Neuadd Goffa
- **Gwener 15fed Medi - Cwis Croeso 'nol** - Neuadd Goffa - Drysau'n agor am 7 i gychwyn am 7.30. £1 yr un a £5 am fwrdd - timau lan hyd 5 person. Dewch a'ch diod a'ch lluniaeth eich hun. Arian parod i'r enillwyr.
- **Iau 21ain Medi – Mudiad Bwydo ein Cymuned** – Sesiwn Cynllunio – 5.30 hyd 7.30 – Neuadd Goffa.
- **Sadwrn 23ain Medi – Helfa Drysor** – Gan Bwyllgor Lles ac Adloniant
- **Sadwrn 23ain Medi - Swper y Cyneuaf** (bwyd - gemau- raffl) Trefnir gan yr Eglwys i gychwyn am 6 o'r gloch. Tocynnau £10 - plant £5.
- **Mercher 4dd Hydref – Pryd o fwyd Elusennol** – trefnir gan Bwyllgor Lles ac Adloniant
- **Gwener 20fed Hydref - Cwis Calan Gaeaf** - drysau ar agor am 7 i gychwyn am 7.30 o'r gloch - £1 y pen Bwrdd £5 - Dewch a'ch lluniaeth - Arian parod i'r enillwyr
- **Sadwrn 21ain Hydref – Noson Teyrnged Elvis** – Neuadd Goffa

## Digwyddiadau Wythnosol

- **Bowlio Dan-Do** – Neuadd Goffa – **Llun a Iau** 7.30 hyd 9.30 Ailgychwyn 4 Medi
- **Caffi Bach** – Eglwys Llanpumsaint **Dydd Mawrth** 11.30 hyd 2.00
- **Zumba** - Neuadd Goffa **Mercher** 7 hyd 8 – Croeso i'r newydd o'r 6ed o Fedi
- **Cwtsh Cynnes** - Neuadd Goffa - **Iau** - 10 hyd 1 o'r gloch - Ail gychwyn 14eg Medi - Celf a chreffft, cardiau, tennis bwrdd a mwy gan gynnwys cinio cartref.
- **Codi Can** – Neuadd Goffa – **Gwener** 7 hyd 9.30 – **Medi 1 a 22 – Hydref 6 a 27** – dewch a'ch lluniaeth eich hunan gyda £2 am logi'r Neuadd.

## Digwyddiadau Addoli arferol

- **Eglwys Llanpumsaint** - Boreol Weddi am 9.00 yb bob Sul.
  - **Chwarae gyda Duw** – 3.45 – 4.45 bob prynhawn Dydd Mawrth.
  - **Cylch DOT** - I ieuentid dros 10 oed yn Eglwys Llanpumsaint fel arfer bob Nos Iau 0 5.30 tan 7.30.
- **Llanllawddog / Sant Celynin Bronwydd**: 11yb ar y Sul  
Parch Canon Dr Matthew Hill LMA Deon 01267 46842 [matthewhill@cinw.co.uk](mailto:matthewhill@cinw.co.uk)  
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Cysylltydd Gwasanaethau Eleri Morris (Ysgrifenyddes) 01267 253895
- **Capel Ffynnonhenri** Cysylltydd Gwasanaethau Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 – Gwyn Nickolas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** Cysylltydd Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

## Gwasanaethau plwyfol wythnosol

- Llun 10.15 – 12.15 Y **Fet Symudol** Neuadd Goffa (Tel [01267 220404](tel:01267220404))  
Drwy apwyntiad yn unig
- Mawrth 2 – 3.45 Fan y **Swyddfa Bost** – Ger y tafarn
- Mercher
  - **Llyfrgell Symudol** (10.45 – 11.15 Neuadd Goffa 11.15 - 11.45 ger Tafarn y Railwe. Noder - yn ymweld bob tair wythnos yn unig (21 Mehefin, 12 Gorffennaf, 2 Awst, 22 Awst)
  - Pobydd **Bara** i'r tŷ (07971 740505)
  - Fan **Pysgod** i'r tŷ (07779 987305)
- Iau **Ffrwythau a Llysiau** i'r tŷ (07969 047045)
- Gwener 1-3 Fan y **Swyddfa Bost** ger y Tafarn

## Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Pleser o'r mwya' i'r Cyngor fu croesawu Lyn Thomas fel aelod cyfetholedig i'w gyfarfod cyntaf fis diwethaf. Mae nifer ohonoch yn adnabod Lyn, un a godwyd yn y gymuned ac sydd yn dod a llawer o brofiad i'r swydd, fel gwnaeth ei dad Dorian fu'n gynghorwr Sir am dros ugain mlynedd. Cyn hynny yn Nhachwedd 2022 cyd-etholwyd Felix Merry i'r Pwyllgor, peiriannydd coedwigaeth sy'n gweithio i Adnoddau Naturiol Cymru ac wedi byw yn lleol ers deng mlynedd gyda'i wraig sy'n honni o'r ardal. Golyga hyn fod y Cyngor wedi llenwi pob swydd, hyn sy'n newyddion da.

Er hynny rydym yn dal i chwilio am Clerc Rhan Amser, felly fe'm cyfyngwyd yn yr hyn allwn wneud gyda gwasanaeth gwirfoddol yr hyn all ein Clerc dros dro gyflawni. Dylai'r swydd fod yn ddeniadol i rywun lleol gyda sgiliau gweinyddol, diddordeb yng ngwasanaethu'r gymuned a'r parodrwydd i ddysgu. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth ar gael. Gofynnir am ryw 4 awr yr wythnos ar gyflog o £2,210 i £2,440 gan weithio yn bennaf o gartre dan amodau hyblyg. Bydd gallu dwyieithog yn fanteisiol ond nid yn angenrheidiol.

Gall Cyngor Cymuned gref ac effeithiol wneud gwahaniaeth i'r gymuned leol ond i lwyddo rhaid cael Clerc, felly os gwyddoch am rywun a diddordeb cysylltwch â'r Cadeirydd, Cynghorwr Arwel Nickolas ar 01267 281365 neu'r Clerc dros dro Kumi Ariyadasa ar 07799 898002 neu [clerc.llanpumsaint@gmail.com](mailto:clerc.llanpumsaint@gmail.com) am sgwrs fach. Mae'r Cyngor yn dal i weithredu'n gymuned gan ddelio a materion a godir gan aelodau'r ardal, a threfnu gwariant effeithiol ac agored o'r arian wrth law.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fedi am wyth o'r gloch yn y | Neuadd. Un o'r materion yw ystyried fydd ceisiadau ariannol sy'n codi bob Mis Mawrth a Medi'n flynyddol. Mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd a gellir gweld y munudau ac agenda'r wythnos cyn hynny [www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en](http://www.llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en)

**Kumi Ariyadasa, Acting Clerk, Llanpumsaint Community Council, Tel. 07799 898002**

## Neuadd Goffa Llanpumsaint

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai gwnaeth y Gadeiryddes Pamela Jones ddiolch i'r Ymddiriedolwyr a'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth gydol y flwyddyn wnaeth sicrhau cynnal a chadw dyddiol y Neuadd. Rhoddwyd diolch arbennig i'r unigolion wnaeth ofalu'r ddyddiol am yr holl weithgareddau i gadw'r drysau ar agor, ynghyd a nhw gefnogodd gweithgareddau gydol y flwyddyn. Rhoddwyd sylw diolchgar i Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa, am alluogi gwaith na fyddai'n bosib heb eu cefnogaeth.(fel bioler newydd a goleuadau LED). Hefyd am gefnogi'r Cwtsh Cynnes i gadw ein trigolion yn gynnes.

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob yn ail fis i arolygu gweithgareddau'r Neuadd. Golyga hyn sicrhau fod y Neuadd yn cydymffurfio a pholisïau cyfoes megis lechyd a Diogelwch gan sicrhau dilyniant, arolygu gweithgaredd arianir gan Gronfa Elusennol Fferm Wynt Brechfa; adrodd ar ymgyrchoedd codi arian, fel er enghraifft Noson Deyrngar Elvis Desley ym mis Hydref. ***Os am ymuno a ni mae yna ddau safle'n wag ar hyn o bryd.***

**Mae'r Neuadd yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau cyson - gweler manylion yn yr adran dyddiadur. Y diweddaraf yw'r dafarn fach.**

Yn dilyn arolwg gan ystyried cymhariaeth a sefydliadau eraill penderfynwyd codi'r taliadau am logi'r Neuadd.

### **Taliadau - pob awr os na nodir yn wahanol**

Y Brif Neuadd – Yn yr wythnos £10 - Dydd Gwener a'r penwythnos £12

Y Brif Neuadd a'r Gegin – Yr wythnos £14 – Gwener a'r penwythnos £16

Unrhyw Ystafell Gyfarfod – unrhyw ddydd £7

Adnoddau Ychwanegol - systemau swm a goleuo, taflunydd a sgrin, piano trydan, llwyfan a llestri - i gyd yn £10 y tro. Bydd y cyfarpar technegol ar gael yn unig at weithgareddau mawr.

Angladdau – Y gegin a'r llestri £40 ar unrhyw ddydd

Clare Bisho  
Ysgrifenyddes

## Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Maes Chwarae)

Ni wedi nodi rhai digwyddiadau gogyfer a'r flwyddyn felly cadwch lygad ar agor am fwy o wybodaeth yn nes at y dyddiau. Helfa Drysor - 23/9.2023. Gwledd Elusennol - 04/10/2023. Gorymdaith Siôn Corn - 24/12/2023 Rasio Ceffylau - 27/01/2024.

Os ydych yn dymuno defnyddio'r Maes Chwarae at ryw achlysur, yn ddathliad, ryw fath o chwaraeon neu rywbeth arall, yna cysylltwch gan ddefnyddio'r canllawiau isod.

Fel arfer mae'r Pwyllgor yn chwilio am wirfoddolwyr i hybu cynnal y Maes a chodi arian, felly os oes gennych ddiddordeb cysylltwch drwy e-bost [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siarad ag Aaron Jones 0781415796 neu unrhyw aelod arall o'r Pwyllgor, am wybodaeth bellach.

## Clwb Cant Llanpumsaint

Llongyfarchwn yr enillwyr diweddaraf -

1Af - £20 – Ail £15 – 3dd £10..

Month Mis	1st - £20 1af - £20	2nd - £15 2il - £15	3rd - £10 3yrdd - £10
June Mehefin	2 Lewis Richards	100 Gwyneth Ayers	98 Felix Merry
July Gorffennaf	83 Gary & Tanya Isitt	2 Lewis Richards	66 Dorrien & Mair Thomas
August Awst	94 Sandra Powell	27 Sharon Frewin	52 Dexter Penfold

Gellir ymuno a'r Clwb o hyd a bod yn rhan o'r tynnu o hynny ymlaen. £12 yw'r tal am y gweddill gan gynnwys yr un werthfawr Nadolig. Felly cysylltwch ag aelodau o'r Pwyllgor neu drwy Epost i [llanpumsaint100club@gmail.com](mailto:llanpumsaint100club@gmail.com)

## Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Wedi'r hoi fach haeddiannol yn yr haf edrychwn ymlaen at ein haelodau a rhai newydd yn dychwelid i'r Neuadd wrth i'r bolio ail-gychwyn a'r Nos Lun y 4dd o Fedi. Her o'r newydd fydd cystadlu yn yr Ail Adran yn y tymor newydd, wrth i ni ymweld â chanolfannau ac wynebaw newydd.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. Ceir mwy o wybodaeth drwy ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 253474.



## Sesiynau Bwydo ein Cymuned ac Ymweliadau

Pleser i fenter Bwydo ein Cymuned fu cynnal pryd o fwyd cymunedol yn Neuadd Llanpumsaint ar ddydd Iau 15fed o Fehefin. Dosbarthodd ein tîm 38 pryd o lasagnia, salad a chrybl ffrwythau yn ystod y noson, a hefyd cyflwyno prydiau ychwanegol i Wagle Haf Cymdeithasol Llanpumsaint.

Cyrhaeddodd menter DOT egnïol Llanpumsaint yn gynnar i gymorth y gweithgareddau. Cneuwyd byrddau lliwgar i ddangos eu syniad am yr Ardd Ddelfrydol, gan annog eraill i'w hefelychu. Gwnaeth nifer o bobl osod elfennau ar fap eang o'r Cae Chwarae gan ymateb i holiadau oddi wrth aelodau'r Tîm Bwydo.

Diolch yn fawr iawn i drigolion Llanpumsaint wnaeth ymuno yn y fenter. Diolch hefyd i Bwyllgor y Neuadd a'r Pwyllgor Lles ac Adloniant am ganiatáu mynedfa i'r cae er mwyn creu. Fe wnaeth y Tîm Bwydo'r Gymuned hefyd gynnal sesiwn gyda disgyblion Ysgol Llanpumsaint ar Ddydd Llun y 17eg Orffennaf. Cwblhawyd arolwg o'r safle, a phrofion o'r tir er mwyn cyfuno'r syniadau ar nifer o fyrddau gweledol.

Cyfunwyd yr holl sylwadau, nodiadau a'r lluniau i'w cadw erbyn y sesiwn goladu nesaf gynhelir yn y Neuadd ar Ddydd Iau 21ain o Fedi am 5.30 hyd 7.30. Yn yr ystafell gyfarfod nesaf at y gegin. Bryd hynny byddwn yn gweithio ar arolwg o'r dirwedd yn y Cae Chwarae, yna dansoddi'r canlyniadau gan ystyried sut fyddai hyn oll yn effeithio ar ddefnyddwyr y Maes.

Bydd mudiad Bwydo ein Cymuned yn trefnu taith astudiol ar y 5ed o Fedi (yw gadarnhau) i Faes yr Esgob yn Abergwili. Gwahoddir pob ymgyrch gysylltiedig arall i'r daith, sy'n rhoi cyfle i gymharu syniadau gydag eraill. Unwaith cadarnheir y dyddiad hysbysir hyn yn eang.

Croeso i bawb fynychu'r sesiynau goladu a'r ymweliadau. Cysylltwch ag Louise ar [louise@cwmarian.org.uk](mailto:louise@cwmarian.org.uk) er mwyn iddi sicrhau cyflenwad digonol o fisgedi a lluniaeth i ysbrydoli in hymdrechion.

## Codi Can

Shwmai! Buodd Codi Canu'n cyfarfod yn y Neuadd ers diwedd Mis Mai gyda phawb yn mwyhau mas draw. Penderfynwyd nad i'r breintiedig yn unig ddylai canu fod. Byddai'n werth ymuno ddim ond i glywed lleisiau hapus y rhai sy'n honni nad allant ganu. Bydd y gerddoriaeth a'r lleisiau gwreiddiol yn cael eu trosglwyddo i'r sgrin fawr, a gallwch sefyll, eistedd neu symud wrth ymuno a'r gerddoriaeth.

Os yw hyn oll yn newydd i chi pam na ymunwch i weld shwd mae pethau'n gweithio gyda ni. Adwaith cadarnhaol gawsom fod hyn oll yn codi calon, ac yn ffordd hwylus o wynebu rhyddid y penwythnos. Byddwn yn cyfarfod am saith o'r gloch y Nos Wener gyntaf a'r olaf bob mis. Dewch a'ch diod a'ch lluniaeth eich hunan a £2 at gost y Neuadd. Gan i hyn gynnwys y raffl gallech elwa o hyn hefyd. Wedi ysbaid o ryw ugain munud byddwn yn gorffen am 9.30. Dyddiadau'r dyfodol Medi 1af a 22ain - hydref 6ed a 27ain.

*Gobeithio eich gweld yn ymuno a'r criw lleisiol hapus!*

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn arferiad diddorol, a gall unrhyw un ei wneud. Credir iddo ddatblygu o'r Aifft neu hyd yn oed cyn hynny. Bydd nifer o gwmnïoedd yn defnyddio dewinwyr i ganfod dŵr, mwynau, olew neu wifrau trydan. Bydd rhai yn dewinio i ganfod iechyd eu bwydydd, neu olrhain straen geopathi eu hamgylchedd, ond ar hyn o bryd cred bersonol yw hyn heb fendith gwyddonol. Pam na ddewch chi atom i ddysgu mwy? Fel arfer mae gennym amser i siarad ar ddiwedd cyfarfod neu'n well fyth dewch gyda ni ar un o'n teithiau.

Pleser fu gweld cymaint wedi troi lan brofi ein cwrs canfod dŵr ym Mehefin.. Hyfryd hefyd fu i ddwsin o bobl ymuno a ni yn dilyn hynny. Felly diolch i bawb wnaeth ddod i sicrhau llwyddiant y fenter.

Cyfarfodydd i gwrdd am 1.45yp i ddechrau am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd

- Awst – Dim cyfarfodydd – seibiant yr Haf
- Sul 27ain Medi Homeopathi yn ein bywyd bob dydd gyda Petra Wood, RS Hom, LicWSHom. Mae Petra yn arbenigwraig a bydd yn egluro'r therapi a sut i'w ddefnyddio ein hunain.
- Sul 22ain Hydref – Tom Bennet – Sir Benfro Neolithig

Oherwydd costau cynyddol mae ein Haelodaeth nawr yn £20 y flwyddyn. Mynediad yn £6 i'r aelodau i gynnwys tocyn raffl a £6 i eraill am y cyfarfod cyntaf ond £10 am yr ail yn y gobaith yr ymunwch. Nid oes angen unrhyw gyfarpar, dewch fel i chi. Ewch i Facebook am y diweddaraf neu i'r wefan - <http://westwalesdowsers.org.uk> neu ffoniwch Sandy 01267 253547 neu [westwalesdowsers@gmail.com](mailto:westwalesdowsers@gmail.com) <<mailto:westwalesdowsers@gmail.com>>

## Dyddiadau'r Cwis wedi seibiant yr Haf

- 15fed Medi - Cwis Croeso 'nol - amser i ail gynnu'r amenydd
- 20fed Hydref – Cwis Canol Gaeaf – Gyda dirgelion amheus – gwisgo lan a digon o wobrwyo
- 17eg Tachwedd – Cwis Ffrwydrol Tan Gwyllt
- 15fed Rhagfyr - Cwis Nadolig - Terfyn y Gynghrair - Hwyl y dathlu a choroni'r enillwyr.

*Cofiwch logi bord a chyrraedd yn gynnar.*

# Clwb Gwili Chwedeg


Yn Mehefin cafwyd darlith ddiddorol gan Bruce Smith ar Ffyrdd y Porthmyn a sut wnaethant ddatblygu fel modd i ffermwyr gael eu anifaeliaid i'r farchnad ac yn amal i Loegr. Drwy ddefnyddio ffyrdd cyntefig byddent yn osgoi talu tollau'r ffyrdd dyrpeg ac yn canfod digon o gaeau pori ar y daith. Fel arfer Welsh Blacks oedd y gwartheg ac 'roedd haid eu pedoli cyn cychwyn ar y daith galed. Dangoswyd sleidiau o gyfarpar hynod ddefnyddiwyd wrth bedoli gwartheg, oedd yn llai amyneddgar na cheffylau. Clywsom hefyd i dafarn y White Hart yn Llanymddyfri ddechrau Banc arian o'r newydd gan wasanaethu eu cwsmeriaid. Enillai rhai gomisiwn wrth ddenu rhagor i ymuno a'r fenter wnaeth ehangu'n llwyddiannus. Hynod deall i'r Porthmyn wau sanau ar eu taith hir werth i'r rhai a wisgent dreillio allan ar eu taith hir ar heolydd caled Lloegr.

Byddwn yn cyfarfod yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch. Fel arfer mae'r maes parcio yn brysur.

- Mercher 9fed Awst – Taith Ddirgel
- Llun 21ain Awst – Gareth Richards - Gwledd Heulog yr Haf
- Marched 6ed Medi – Taith i Gasgliad Ynyshir o Organau Theatr a Pharc Treftadaeth y Rhondda.
- Llun 25ain Medi – Brian Jones Castell Hywel
- Llun 23ain Hydref - Cymdeithas Cadw Gwenyn Sir Gar

Aelodaeth blwyddyn nawr yn £10. Mynediad £2 yn cynnwys y Raffl

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Val Giles - Ysgrifenyddes - 01267 281194*



## Eglwys Llanpumsaint a'i gweithgareddau

Er nad oes gennym Ficer ar hyn o bryd rydym yn gefnogol i'r rhwydwaith eglwysi lleol, ac mae yna Gymundeb yma am 9 y bore bob Sul. Rydym hefyd yn ffodus o gael Pwyllgor egniol sy'n awyddus i sicrhau fod Eglwys Llanpumsaint yn llewyrchus.

- **DOTS** – Yn cyfarfod bob Nos Iau am 5.30 hyd 7.30. Hwn yn agored i blant dros ddeg oed. Mae rhai ohonynt ar hyn o bryd ar bererindod i Dyddewi am rai dyddiau.
- **Chwarae Duw** - cynhelir bob dydd Mawrth o 3.30 hyd 5.30 ac yn agored i blant dan 10 oed dan warchod oedolyn. Byddant yn ymchwilio straeon o'r Beibl ac yna fe'u hanogir i ymateb yn y modd o'u dewis. Gall hyn fod anniben pan ddaw'r paent mas.
- Bydd y ddau gylch yn ail gychwyn pan ddychwel y plant i'r ysgol ac yn rhedeg amser y tymor.

**Y Caffi Bach** ar Ddydd Mawrth 11.30 hyd 2.30 gan dîm egniol o wirfoddolwyr. Diod yn 50c ond rhagor am ddim, hefyd danteithion i'w prynu. Mae hwn yn ganolfan da i gyd-gwrdd a phobl. Os credoch fod eglwys yn edrych yn draddodiadol yna dewch yma i gael eich synnu.

**Cynhelir Swper y Cyneuaf** ar 23ain o Fis Medi am 6 o'r gloch. Bydd tocynnau ar werth cyn hir - oedolion £10 - plant £5. Bydd y nifer yn gyfyngedig felly cyntaf i'r felin i falu bydd hi. Ymunwch a ni am noson o wleda, gemau a raffl.

Mi fydd yna hefyd **Noson Gymdeithasol** yn yr Eglwys ddechrau Rhagfyr gyda mins peis, gwin cynnes ac ychydig ganu. Gwylwch am newyddion pellach yn nes ymlaen.

*Niki Day*

## Lleoliadau'r Peirannau Adfywio Cofiwch fynd i'n gwefan Llanpumsaint

A oeddech chi'n gwybod bod pedwar diffibriliwr yn Llanpumsaint? Mae pob un wedi'u cofrestru ar Y Circuit – Y Rhwydwaith Diffibriliwr Cenedlaethol - ac mae hyn yn caniatáu i Wasanaeth Ambiwlans Cymru ddod o hyd iddyn nhw mewn argyfwng. Edrychwch ar eu holau, parchwch nhw, un diwrnod gallent achub eich bywyd.

Tu fas y Neuadd Goffa SA£33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railway SA33 6BU

Ar y wal tu fas fferm Henfryn Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo SA33 6HN

*I gael rhagor o wybodaeth am eich cyswllt diffibriliwr cymunedol Carolyn Smethurst 01267 253308*

## Ymchwil y Cae Mawr

Cywaith y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yw Ymchwil y Cae Mawr sy'n cael ei ddatblygu gan Gylch Dolydd Caerfyrddin. Y pwrpas yw cofnodi amrywiaeth planhigion yn ein caeau. Mwyaf i gyd y planhigion blodeuog, iachach yw'r cae, mwy'r amrywiaeth o fywyd yn arbennig y pryfed. Rydym yn son am ieir bach yr haf a'r gwyfyn, ond hefyd pryf hofran, ceiliog y rhedyn, y chwilen, picwns a gwenyn - hyn oll yn fwyd i'r adar. Rydym yn dwli gweld y gwennoliaid yn hedfan a disgyn - mae e' i gyd yn gysylltiedig wrth gwrs. Amrywiaeth o blanhigion - pry - adar!

Mae yna flodau gwyllt cadarnhaol (fel briwydd y gors, carpiog y gors, meillionen goch, a suran y cwn), i gyd ar gynnydd mewn cae rheoledig da. Hyn mewn cymhariaeth i wahanol chwyn anfanteisiol, megys dined a llau'r offeiriaid, neu blanhigion estron wedi dod i mewn ac uno, fel jac y neidr neu ganclwm Japan - rhain y negyddol.

'Nol ym Mis Mehefin gwnaethom arolwg o rai o gaeau Llanpumsaint a dyma 'r canlyniadau. O'r cyfanswm o 60 o flodau gwyllt ar 5 gwahanol safle profodd 15 yn gadarnhaol ond 7 yn negyddol.

Dyma brofiad Nicky Dickenson o Gylch y Dolydd.-

*"Gwnaethom arolwg o blanhigion mewn un o'n caeau fel rhan o ymchwil 2023 Cylch y Dolydd. Bu'n brofiad hudol ond siomedig ar y cychwyn wrth i ni orfod gadael un cae gwair heb ei dorri pan wrthi'n cynhaefu, er mwyn yr arolwg. Syndod o'i ganfod mewn cyflwr da er gwaethaf y defnydd ohono drwy'r flwyddyn cynt. Allan o gyfanswm o 24 o flodau gwyllt canfuwyd 8 i'r dosbarth cadarnhaol. Byddwn yn argymhell cymerid rhan yn yr arolwg, hyd yn oed os nad ydych yn disgwyl llawer neu'n analluog i adnabod y gwahanol rai. Gallwch gysylltu drwy Google i'ch helpi i adnabod".*



## Hufen Ia Fferm y Felin ar werth.

Rydym nawr unwaith eto'n gwerthu Hufen Ia blasus Joes yn Fferm y Felin. Yn ein Siop Fferm ceir hefyd ein mel rhyfeddol gyda wyau ffresh o'r nyth. *Anne Ryder Owen*

# Cylch Meithrin Bronwydd



Roedd Tymor yr Haf yn un prysur yn y Cylch, a roedd llawer o gyfleoedd i'r plant i archwilio'r awyr agored, yn enwedig gan fod y tywydd mor braf. Ar ddechrau'r tymor, bu'r plant yn brysur yn plannu hadau blodau haul, ac yn dysgu beth sydd angen i hadau i dyfu. Erbyn hanner tymor roedd coesau a dail y blodau yn barod i'w plannu allan yn yr ardd, ac er y tywydd twym, a cheisio bod yn ofalus gyda'r defnydd o ddwr, tyfodd y blodau yn dal, a fe welwyd blodau haul melyn tal erbyn diwedd mis Mehefin a oedd yn wledd i'r gwenyn.

Roedd y plant wedi mwynhau llenwi a gwagio potiau o gompost ac yn dysgu cysyniadau mathemategol fel llawn a gwag. Bu'r plant hefyd yn mwynhau taflu brigau a dail i mewn i'r afon ac yn dysgu geiriau croes fel arnofio/suddo ac araf/cyflym a phell/agos. Buon hefyd yn chwilio am greaduriaid bach yn yr afon yn ogystal ac yn yr ardd. Syndod oedd faint o wahanol drychfilod a oedd yn byw yn ein gardd.

Ar fore Gwener ym mis Mehefin, bu rai o blant y Meithrin a Thi a Fi yn ymweld a'r Ardd Fotaneg ar gyfer Sioe Flynyddol Dewin a Doti a drefnir gan Mudiad Meithrin. Roedd Siani Sionc yn arwain y Sioe.

Bu'r plant yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r Mudiad ar 18fed o Orffennaf. Ail oedd ein safle eleni, er mai dim ond 3 phwynt oedd rhyngom a'r ennillwyr. Llongyfarchiadau gwresog i Feithrinfa Gwtsh y Clos ar ennill y darian, a da iawn i bob plentyn wnaeth gymryd rhan.

Rydym ar gau nawr tan y 5ed o Fedi, ac yn edrych mlaen i weld y plant nol pryd hynny, a chroesawu rhai wynebau newydd i'r Cylch. Tan hynny mwynhewch yr Haf.

Os hoffech fwy o fanylion ar y Cylch, cysylltwch plis a Verona ar 07929 431652 neu [cylchmeithrinbronwydd@gmail.com](mailto:cylchmeithrinbronwydd@gmail.com).

## Cyfyngder 20 milltir yr awr 17/9/2023

Bydd yr 20mya yn weithredol i bob heol gyda goleuadau stryd fu cynt yn 30mya ar draws Cymru. Mae'r gwaith o baratoi at y newid einioes ar droed, felly cadwch lygad agored am newidiadau.

## Fy nghymydog anghyffredin



Gwybedog mannog - Clare Bishop

Gwybio a phlymio yn yr awyr - ife aderyn y to oedd hwnna'n hedfan heibio? Nage wir! Arhoswch! Pa aderyn yw hwnna, yr un bach llwyd sy'n anelu lan at ei nyth dan y to? Mae'n nyth fawr siâp wy luniais beth amser 'nol, llan o laid a sement er mwyn denu gwennol y tŷ - ond nid y nhw sydd yma eleni. Mae rhywun arall yno gyda thri o adar bach. Gwybedog mannog sydd yma. Mowredd! Mae hwn ar y Rhestr Goch - dan fygythiad. Cyn hir byddant yn ein gadael ac aneli am y de, i hedfan 7 mil cilomedr i aeafu'n Namibia..

Teimlaf mor ddiolchgar iddynt ddewis fy nyth fach i!

**Ann Pettitt**

## Gwahoddiad: Loteri Genedlaethol – Cyngor i Grwpiau Cymunedol

Mae Cefin Campbell, Aelod o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn eich gwahodd i ddigwyddiad gan y Loteri Genedlaethol. Mi fyddant yn darparu gwybodaeth a chyngor ar sut i baratoi a chyflwyno cais llwyddiannus am arian loteri ar gyfer prosiectau cymunedol.

Mi fydd y digwyddiad yn cael ei chynnal ar

**DYDD GWENER, 20 HYDREF 2023 yn Neuadd Tymbl, Y Tymbl, SA14 6HR.**

Mi fydd y drysau yn agor am 9.30 y bore, ac rydym yn bwriadu cychwyn am 10.15 y bore. Mi fydd yna gyflwyniad gan swyddog o'r Loteri yn gyntaf, ac yna fydd cyfle i chi cael gair pellach gyda'r swyddog ariannu ar ôl hynny os oes gennych unrhyw pwynt penodol iw drafod. (*Noder efallai fydd yna beth aros i wneud hyn yn ddibynnol ar faint o bobl fydd yn dod i'r digwyddiad.*)

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r digwyddiad yma a fyddech mor garedig a rhoi gwybod i ni erbyn y 1af o Hydref, 2023.

Danfonwch eich ymateb at: [jonathan.evershed@senedd.cymru](mailto:jonathan.evershed@senedd.cymru)

## Rhybydd Scam

Derbyniais E-bost yn honedig o Adran gyfrifon BT. Felly byddwch yn effro! Daeth y neges i mi ac i Heddlu Gorllewin Mercia, felly'r rhybudd. 'Roedd yr E-bost yn cynnwys logo BT gyda bocs mawr a'r neges - Debit Declined, chyswllt Get Started. Dyma adroddiad Heddlu Mercia

Mae yna Ebost Scam ar droed yn honedig o BT sy'n edrych yn iawn ond mae yna nifer o arwyddion bach sy'n amheus. Un amlwg i ni oedd iddo gael ai anfon i'n cyfeiriad team Police.

Mae'n gofyn i chi beidio ag ateb ond i glicio ar y cyswllt ( hyn i'ch arwain i ddatgelu eich manylion personol. Daw'r E-bost o no [reply@mail.com](mailto:reply@mail.com) <<mailto:reply@mail.com>> - dim son am BT ynddo. Mae ychydig ymchwil ar y lein yn datgelu i'r rhif ffôn ar waelod yr Ebost(0800-800-150) yn gysylltiedig â scam bandeang - rhif BT go iawn mae'r scamwyr wedi copïo neu glonio.

Pe na fyddai digon yn eich cyfri i dalu debyd uniongyrchol byddai'r Banc wedi rhoi gwybod i chi. Ac mi fyddech chi'n ymwybodol o unrhyw newid yn eich cyfrifon banc allai fod wedi achosi nam. Pe bae gost wedi newid mi fyddai BT gallwch fentro wedi cysylltu â chi. Torri rhywun bant a cholli cwsmer fydda'r peth diwethaf fyddai BT yn ystyried. Dyw debyd uniongyrchol byth yn marw.

*Byddwch ar ddihun - eich cyfaill PC phethau amheus - Dave*

## Methiant Mawr BT

Os nad ydych yn defnyddio BT gynnal eich Gwe yna nid oes angen i chi ddarllen y canlynol. Gyda llaw gweithio i'r wraig ydw i ac nid i Bt.

Rhwng 14eh a'r 17eg o Orffennaf bu Methiant eang BT wnaeth effeithio'n sylweddol ar yr ardal. Felly nid oedd y We ar BT ar gael. Felly 'doedd yna ddim E-bost na gwasanaeth ar y we nac unrhyw weithgaredd cymdeithasol yn bosib. Os oedd Llais Digidol gennych yna collwyd hynny oll hefyd oherwydd bod eich ffon bellach wedi cysylltu fel hyn .Felly dim cysylltiad i fewn nac allan. Yn waeth fyth bu rai oedd yn gysylltiedig heb ddefnydd ei ffon symudol hefyd.

'Roeddwn eisoes wedi uwchraddio dull Halo3+ gyda BT - daeth gyda ffeil wrth gefn wedi ei gysylltu'n uniongyrchol a BT pe bae'r gwasanaeth yn methu. Felly cysylltwyd ni a EE ar gyflymder o 14mbps - derbyniol!. Gall BT dargyfeirio'r ffon gartref i'r symudol pan fyddwch i ffwrdd - hyn ar ôl ateb sawl cwestiwn diogelwch. Mae yna App elwir yn My BT - gall hwn ddweud am ba hyd fydd y gwasanaeth lawr a hefyd dargyfeirio galwadau.

Er mwyn ail-gysylltu bu'n rhaid diffodd y White Openreach ac ail gychwyn wedi 10 munud. Gobeithio gall hyn oll fod o gymorth pe bae yna drafferthion yn y dyfodol.

**Dave**



## Tymor yr Haf prysur iawn i Ysgol Llanpumsaint



Cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr Cenedlaethol yng Ngŵyl Cynradd yr Urdd yn Aberystwyth.

Noson hyfryd yn nhwrnament pêl droed Saron, Llandysul ar Fehefin 12fed. Ennillwyr y timoedd cymysg - Da iawn chi blant!



Am brofiad i Cadi, cymryd rhan yng nghynhyrchiad agoriadol Eisteddfod yr Urdd eleni, sef 'Chwilio'r Chwedl'



Noson lwyddiannus eto yn nhwrnament pêl droed Llanfihangel ar Arth i flwyddyn 4,5 a 6 ar Fehefin 13eg. Da iawn i Cadi am ennill chwaraewraig y noson ~ hollol haeddiannol.

Tro blwyddyn 1, 2 a 3 ar Fehefin 14eg yn nhwrnament pêl droed Llanfihangel ar Arth! ENNILLWYR y twrnament!





Gwobr Platinwm Eco 'Sgolion wedi ei adnewyddu a baner werdd ychwanegol wedi ei hennill i Ysgol Llanpumsaint. Da iawn i'r disgyblion am eu gwaith drwy gydol y flwyddyn ac i Bethan Evans-Phillips am ei hanogaeth a'i chymorth ar hyd y daith.



Da iawn blant am ganu'n arbennig yng Ngwyl Canol Dre ar Orffennaf 8fed gyda'n ffrindiau o Ysgol Cynwyl Elfed.

Diolch Mrs Davies am eu harwain a Gwyneth Ayers am gyfeilio. Diolch i'r rhieni am ein cefnogi unwaith eto.

**Diolch unwaith eto i chi gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth dros y flwyddyn a fu. Gobeithio y cewch chi haf hyfryd ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.**

## **Newyddion Menter Gorllewin Sir Gâr**

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn brysur iawn yn paratoi prosiectau a digwyddiadau newydd ac amrywiol ar gyfer mis Medi a thu hwnt.

Os ydych eisiau gweld beth sydd gennym ar y gweill, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol.

- Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
- Trydar - @MenterGSG
- Instagram - @MenterGSG
- E-bost - [ymholiad@mgsg.cymru](mailto:ymholiad@mgsg.cymru)
- Am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.



## Datblygiad gwaelod Pentref Bronwydd

Efallai i chi gofio i mi son yn y rhifyn diwethaf o'r Llais fod Cyfrifiad 1841 yn nodi un tŷ yn unig yng ngwaelod Bronwydd sef Typicca. Felly sut ddatblygodd pethau i'r sefyllfa brysur bresennol? I lawr o'r Graig fferm fach dawel oedd Felinfach, (tra gwahanol i'r prysurdeb ceffyllog presennol) gyda melin islaw'r fynedfa wrth ben Nant Brechfa. Oddi yno aeth y brethyn lawr i dafarn Clothiers (Hollybrook erbyn hyn).

Rhaid aros hyd 1894 cyn gweld addoli yn Sant Celynin. Yn gynnar yn y 1950degau adeiladwyd Nant Helyg y cyntaf o res o dai ar hyd y darn hir yma o hewl. Wedyn yn y 70degau a'r 80degau ychwanegodd ystadau Gelli Aur, Bro Celynin a Troedryrnys dros hanner cant o gartrefi. Ugain mlynedd cyn hynny adeiladwyd tŷ Gelli Aur ar safle sied yr Home Guard ddaeth wedyn yn gartref i sefydliad y merched, y W.I. Saif y tŷ cyntaf ar y dde yn Troedryrnys ar safle'r Carpenters Arms fu'n gwerthu cwrw hyd y 1920degau. Ar y dde cyn y bont mae tŷ gwyn Barnsfield, yr enw'n adlewyrchu un o'r ystadau mawr cynt oedd a'i chanolfan yn fferm Troedryhyw gerllaw. Y nhw oedd yn berchnogion ar y bont gynta' dros y Gwili yma tua 1740. Amrywiol fu cefndir safle Timberman, unwaith yn gartref i lorïau, yna'n garej cyn cyrraedd ei wasanaeth presennol, a dyma hefyd hyd y 1960edau lle deuai'r ffermwyr lleol i dipo defaid. Lot o sbri yn enwedig i'r bechgyn lleol wrth geisio cadw trefn ar bethau.

Cyn White Water dyma leoliad neuadd gyntaf Bronwydd, adeiladwyd wedi'r Ail Ryfel Byd gan wirfoddolwyr, wedyn adeiladwyd yr un bresennol gerllaw Cae Cnwcyderi, cartref y criced ers 1979. Credwch neu beidio ond ar hyd y darn nesaf o heol bu unwaith dri phopty, ac mae'r enw Dolwar yn dyst i un o hyd. Gerllaw'r orsaf drenau mae'r bensaerniaeth yn datgelu safle ffatri Gwili Lan fu'n hel gwllân hyd ei chau yn 1958. 'Roedd y rheilffordd wedi cyrraedd yma yn 1860 a daeth Brynhyfryd ger y fynedfa'n gartref i'r Orsaf Feistr ac wedyn y Swyddfa Bost gynta' (symudwyd hon wedyn ddrws nesaf i Gwili Lan cyn iddi hi a'r siop gael eu cau, fu'n ergyd farwol i'r ardal. Gwelwyd nifer o dai yn ymddangos ar hyd yr heol ucha' dros droad y ganrif.



*Dim ond y siop ar ol. 1981*

Wrth gyrraedd yr hewl fawr mi welwch gofeb bron yn guddiedig gyferbyn yn cofio am Dafarn Y Bronwydd, Siop Lett a pwmps petrol, hyn oll fu unwaith yn ganolfan prysur a chymdeithasol i'r holl ardal o amgylch.

Os ydy'r ceir tu ôl i chi canu corn erbyn hyn, gallwch ddysgu mwy o ddarllen fy llyfr ar Hanes Bronwydd o'r Llyfrgell neu drwy fenthyg.

**Arwyn 2023**

# Cornel Resait

## Tarte Tartin Hawdd

(Veronique Jones)

Gellir gwneud y resait hyn hefyd gydag afalau, peren, bricyllen neu eirinen wlang.

### Cynhwysion

- 1 dalen o grwst puff menyyn
- Siwgr
- Menyyn
- Ffrwythau ffres o'ch dewis
- **Synamon**

### Dull

- 1 Gosod haenen o siwgr dros waelod y ddisgl
- 2 Ychwanegu tafell denau o fenyn drosto



3. Ychwnegu'r ffrwythau wrth ben gan daenu cinnamon drosto



4. Rhowch y toes dros hyn oll gan gau'r ochrau cyn eu dyllu.
5. Coginiwch am 30 i 40 munud ar dymheredd o 180 c nes i'r toes grwsto a berwi.



6. Gosodwch ddisgl fwy arall wrth ben a gyda gofal trowch y darten wyneb i waered. Dylai nawr ddisgyn

7. Wedi iddo oeri mwyhewch y wledd flasus sy'n ychydig yn gynnes

